



*'Dacw'r hyfryd fan caf drigo'*

## Atyniadau'r Pererinion

Roedd llwybrau'r pererinion yn arwain i ardal Aberdaron trwy Anellog ac Uwchmynydd o'r gogledd o gyfeiriad Clynnog Fawr ac o'r de a'r dwyrain trwy Abererch a Llanengan. Byddent yn cymryd seibiant ym mhen draw Llŷn cyn croesi'r Swnt peryglus i Ynys Enlli ac yn amlach na pheidio yn aros am dywydd ffafriol i hwyltio. Ond byddai digon o atyniadau yn yr ardal i ddyfnhau eu profiadau ysbrydol cyn cyrraedd Enlli. Câl Ynys Enlli ei hystyried yn Rhufain Cymru ac roedd tri ymweliad ag Enlli'n gyfystyr ag un ymweliad â Rhufain.

Roedd y pererinion cynharaf wedi darganfod llecyn arbennig i encilio iddo ar lethrau mynydd Anellog a sefydlon nhw glàs yno. Dyma, mae'n debyg, leoliad Capel Anellog (SH 15592745) un o gapeli coll cynnar Llŷn. Yno cafodd Cerrig Anellog eu darganfod sy'n dystiolaeth fod Cristnogion yn yr ardal yn y 5/6edG. Ar un ohonynt caiff Senacus, yr offeiriad, a llu o'i gyfeillion eu coffáu ac efallai fod amryw o'r pererinion bregus a fethodd gwblhau'r daith i Enlli yn eu plith.

O gyfeiriad mynydd Anellog llifa afon Saint i Aberdaron. Byddai cyfle i yfed o ddŵr meddyginiaethol Ffynnon

Saint (SH 16542671) a myfrio wrth Allor Hywyn. Hon ydi'r garreg fawr wastad ger y ffynnon a gafodd ei chwalu wrth godi'r bont gerllaw. Rhaid fyddai ymweld â Ffynnon Fair (SH 13952519) ar fin Swnt Enlli yn Uwchmynydd. Yno byddent yn craffu am olion carnau ceffyl Mair ac olion ei bysedd yn y creigiau cyn yfed o'i dŵr sanctaidd cyn dringo'n ôl i fyny Grisiau Mair.

Ar y gwastad rhwng Mynydd Mawr a Mynydd Gwyddel roedd Capel Mair (SH 13922534) ac yno câi cyrrf y meirw eu cadw wrth ddisgwyl am dywydd ffafriol i groesi i'w claddu yn Enlli.

Roedd llety i'w gael yn y Gegin Fawr yn Aberdaron neu yn Cwrt, Uwchmynydd – fferm oedd yn osgoi talu'r degwm am ei bod yn lletya pererinion.

Ar dywydd teg byddai cychod yn aros amdanynt ym Mhorth Meudwy (SH 16302552). Mae'r enw hwn a Bodermyd gerllaw yn cyfeirio at feudwyaeth y pererin. Gallent hefyd hwyltio ar bob llanw a yn union ar draws y Swnt o Ffynnon Fair i Fae'r Nant ar Enlli.



## Pererindota yn Llŷn



*'Pe cawn i egwyl rhyw brynhawn'*

Nid y man cychwyn ond profiadau'r daith a phen y siwrnai sy'n bwysig i'r pererin. Roedd pererindota yn bod cyn y cyfnod Cristnogol a gallwn ddyfalu y byddai pobl yn talu gwrogaeth i'r penaethiaid wedi'u claddu mewn cromlechi, carneddi ac o bosib o dan feini hirion. Byddent yn ymweld ar adegau penodol o'r flwyddyn, yn arbennig ar hirddydd haf a symudiad arwyddocaol cytser.

Roedd arbenigrwydd meddyginiaethol neu ddawn broffwydol yn perthyn i ddŵr ffynhonnau neilltuol, a chred neu ofergoel yn peri i'r safle ddatblygu'n lle sanctaidd. O dipyn i beth fel y lledaenodd Cristnogaeth mabwysiadodd y Cristnogion cynnar arferion a thraddodiadau'r gymuned baganaidd.

Roedd ofergoel, chwedl, ofn a diniweidrwydd yn rheoli, ac ansicrwydd a breuder bywyd yn ddychryn. Credent mai cosb am bechod oedd salwch ac anabled.

Ond daeth yr offeiriaid Cristnogol, y 'seintiau cynnar' i'w plith a chynnig gobaith. Wrth ymweld â manau penodol ac yfed dŵr y ffynnon sanctaidd daethant i greu y caent wellhad o'u hafiechydon a maddeuant am eu pechodau. Pe cosbent eu hunain yn ystod y daith a derbyn penyd gan offeiriad byddai hynny'n hyrwyddo'r adferiad.

Roedd yn haws cael trefn ar eu bywydau wrth dorri cysylltiad â'u cymdeithas a neilltuo am gyfnod i weddio.

Dyna oedd atyniad yr ynys ar y gorwel welodd Cadfan o'i gell yn Nhywyn, Meirionnydd. Llwyddodd i berswadio'i ddilynwyr encilio i Ynys Enlli. Buont yn cenhadu ar eu taith a sefydlu llannau, yn amlach na pheidio o fewn cyrraedd ffynhonnau. Datblygodd clas mynachaid ar lethrau Mynydd Anelog a buan y daeth pendraw Llŷn yn atynfa i offeiriad ac y datblygodd Ynys Enlli yn lle sanctaidd.

Lledaenodd dylanwad dilynwyr Cadfan y tu allan i Lŷn a daeth Beuno a'i ddilynwyr yntau a dylanwadu'n drwm ar gymunedau Llŷn.

Mae'r eglwysi a'u saint, y ffynhonnau sanctaidd ac olion Cristnogaeth gynnar sydd i'w gweld yn Llŷn heddiw yn tystio bod pererinion yma yn y canrifoedd cynnar a bod eu hanes yn parhau i gyfoethogi'r ardal.

## Llwybr y Pererinion (Gogledd)



Byddai'r pererinion cynnar yn casglu yng Nghlynnog Fawr, (SH 4145049690) i baratoi at gyfer y daith flinedig dros yr Eifl ac ymlaen Ynys Enlli. Roedd bri ar bererindota yn Llŷn.

Beuno sefydlodd Eglwys Clynnog. Roedd yn sant a ddylanwadodd yn fawr ar Gristnogaeth gynnar yng ngogledd-orllewin Cymru. Roedd ganddo lu o ddilynwyr ac un o'r rhain oedd Aelhaearn a sefydlodd Eglwys Llanaelhaearn Rhaid oedd galw yno a thorri syched yn Ffynnon Aelhaearn cyn dringo at Fwlch yr Eifl.

Dewis arall fyddai dilyn godre Moel Carnguwch ac ymweld ag Eglwys Carnguwch, un arall o lannau Beuno.

Beuno sefydlodd Eglwys Pistyll hefyd, a gellwch ddal i deimlo naws y canrifoedd cynnar yn yr eglwys heddiw. Ar yr allt wrth adael yr eglwys i gyfeiriad Nefyn mae carreg â chroes arni.

Yn Llanfair yn Nefyn yn y Canol Oesoedd roedd mynachlog sydd wedi rhoi ei enw i Stryd y Mynach ac mae Amgueddfa Forwrol Nefyn yn yr hen eglwys. Yn Stryd y Ffynnon mae Ffynnon Fair rhwng dwy eglwys Nefyn.

Nefyn i Aberdaron roedd y pererinion yn gallu dilyn yr arfordir. Byddent yn mynd heibio Eglwys Tudweiliog a Ffynnon Cwyfan ac yna ymlaen i Eglwys Llangwnadl. Wedyn, trwy blwyf Bodferin, lle mae safle Eglwys Bodferin, ac ymlaen i Aberdaron.

Neu o Nefyn gallent hefyd fynd heibio Ffynnon Gybi Bach, wrth odre Garn Boduan ac nid yw Eglwys Boduan ymhell. Heibio Eglwys Ceidio wedyn ac ymlaen i gyfeiriad Garn Fadrun ac ymweld ag Eglwys Llandudwen a'i ffynnon rinweddol. Wedi mynd heibio Eglwys Bryncroes a ffynnon Fair ymlaen i Aberdaron a chael cyfle i fynd i Ynys Enlli i ymweld â'r atyniadau sanctaidd.



## Eglwys Penllech (SH 220344)



Eglwys foel, syml wedi'i hail-doi yn ddiweddar yw hi.

Dim ond yn achlysurol iawn y caiff gwasanaethau eu cynnal yn eglwys Penllech bellach a chaiff ei gwarchod gan 'Gymdeithas Eglwysi Digyfaill'.

Eglwys Santes Fair ydi hi er bod cyfeiriadau ati hefyd fel eglwys Sant Belyn. Does dim gwybodaeth am Belyn, ond roedd Belyau yn un o ferched Brychan Brycheiniog ac yn chwaer i Nyfain (Nefyn). Yn ymyl yr eglwys mae tŷ o'r enw 'Tyddyn Belyn'. Bydd ar agor bob amser.

Yn ei mynwent mae bedd Y Parchg. J Bodfan Annwyl, gweinidog, awdur a golygydd Geiriadur Cymraeg-Saesneg Spurrell. Bu'n byw ym Mryn Bodfan (Nant), Llangwnnadr.

## Eglwys Llangwnnadr (SH 20883324)



Ym mur allanol deheuol yr eglwys mae croes ag arlliw o gochni ynddi. Y gred yw ei bod yn nodi safle bedd Gwynhoedl, nawddsant yr eglwys. Ar golofn yn yr ochr ogleddol mae arysgrif yn nodi ei feddrod.

Yn Oriol Glyn y Weddw mae carreg ac arni'r arysgrif VENDESETL, sef Gwynhoedl. Cafodd ei darganfod yn Nhir Gwyn, Llannor ac mae'n nodi man claddu Gwynhoedl. Tybed a gafodd ei fedd ei symud i'r fan honno o Llangwnnadr?

Mae cyfeiriad at ddarn o dir 'Nantwyneydel' oedd yn perthyn i abaty Enlli yn 1252 a chyfeiriad at gapel yma yn 1504. Does dim sôn am eglwys.

Oherwydd ei phoblogrwydd fel man ymgynnull i bererinion ar y ffordd i Ynys Enlli bu'n rhaid treblu maint yr Eglwys yn yr 16egG. Cafodd yr arcêd ogleddol ei chodi yn 1520 ac mae arysgrif yn cyfeirio at hynny, sef 'HEC EDES EDIFICATA EST IN ANNO DNT IHRO. Hefyd cafodd yr ale deheuol ei godi. Mae coed y to'n dyddio o'r un cyfnod. Cafodd ei atgyweirio dan gyfarwyddyd Henry Kennedy yn 1850 a chafodd y sgrin ei thynnu –dylanwad Mudiad Rhydychen.

Mae cerrig beddau yn yr eglwys ac yn y fynwent i goffâu'r teulu Lloyd, Nantgwnadr. Yn yr eglwys mae replica o gloch llaw Geltaidd o'r 9-10edG – y gwreiddiol yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd.

Ar y mur mewnol gogleddol mae allwedd i'w defnyddio mewn priodasau pan na fedrai'r pâr priod fforddio modrwy.

Yn y fynwent mae carreg fedd i goffâu Griffith Griffiths, Methlem a fu farw yn 1746 ac yntau wedi byw yn ystod teyrnasiad naw brenin/brenhines Lloegr.

Mae beddau 'Meddygon y Ddafad Wyllt', sef Griffith Griffith, Siop Penygraig a'i fab Owen fu'n trin y salwch am flynyddoedd yno. Hefyd bedd Jennie Jones, Tŷ'r Ysgol, awdur 'Diliau Dylly' a'r cymeriad Porci yn y comic 'Hwyl'.

Dros yr afon mae Ffynnon Gwynhoedl a Chae Eisteddfa lle byddai'r pererinion yn gorffwys ar eu taith.

## Eglwys Bodferin (SH 17303150)



Dim ond ei safle sydd i'w weld.

Mae plwyf Bodferin rhwng plwyfi Llangwnnadr ac Aberdaron, yn blwyf heb na choeden, gefail nag eglwys, yn ôl y sôn. Ond bu yma unwaith eglwys a'r cyfan sy'n aros yw carnedd a chodiad tir bychan i nodi'r safle. Yng nghanol yr 20edG. roedd rhai o'i muriau yn dal i sefyll.



Mae'r cyfeiriad cyntaf at 'Lanerin' yn 1254 a 'Bodveryn' yn 1535. Roedd Sant Merin o'r 6edG. yn frawd i Gwynhoedl, nawddsant Llangwnnadr, ac yn fab i Seithennyn, ceidwad dorau Cantre'r Gwaelod. Caiff ei gysylltu â Lanmerin a Plomelin yn Llydaw a St Merryn yng Nghernyw.

Yr eglurhad am yr enw efallai yw Bod + Merin.

Yn ôl yr hanes ymosododd ysbeilwyr ar yr eglwys a'i dinistrio. Wrth iddo ddianc, wedi iddo ddwyn y gloch, a neidio dros agen ger Porth Ferin gollyngodd y lleidr hi. Dyna'r esboniad am yr enw Llam y Lleidr.

Mae 'Hanes Eglwysi a Phlwyfi Llŷn' yn honni bod yr eglwys hon wedi'i dinistrio gan ysbeilwyr yn yr un cyfnod â phan gafodd Capel Mair ei chwalu yn Uwchmynydd. Pan aeth y ffermwr ati i glirio'r adfail er mwyn defnyddio'r tir cafodd ei daro'n wael ac ni weithiodd o gwbl wedyn. Hyn meddir, am iddo ymyrryd â'r eglwys.

Gerllaw mae Porth Ferin a Phorth Iago a'u henwau yn awgrymu bod cysylltiad crefyddol.

Heb fod ymhell cafodd eglwys newydd i Sant Merin ei chodi yn 1900 ond bellach tŷ ydyw.

## Eglwys Aberdaron (SH 17322637)



Hywyn yn y 6edG sefydlodd yr eglwys yn Aberdaron. Roedd yn un o ddilynwyr Cadfan, abad cyntaf Ynys Enlli, a nai i'r Brenin Arthur.

Hon oedd prif eglwys Llŷn, y gyfoethocaf ac iddi gefndir mynachlogaidd. Symudodd y clàs yma o Anellog yn y 13egG gan gadw'r cytundeb â myneich Enlli ynglŷn â thiroedd. Y mur gogleddol yw rhan hynaf yr eglwys yn dyddio o'r 12edG. Mae'r porth Normanaidd hardd yn nodweddiadol o bensaerniaeth y cyfnod. Cafodd y gweddill ei godi'n gynnar yn y 16egG wrth iddi gael ei ehangu ar gyfer y pererinion ar eu taith i Enlli.

Oddi yma tua 1094 llwyddodd Gruffudd ap Cynan, gyda chymorth y canoniaid, ffoi i lwerddon pan oedd y Normaniaid yn ei erlid. Yn 1115 derbyniodd Gruffydd ap Rhys seintwar yn yr eglwys cyn dianc i ddyffryn Tywi pan oedd Gruffudd ap Cynan ar ei ôl.

Yn hanner cyntaf y 19egG roedd erydiad y môr yn bygwth yr adeilad a chafodd Eglwys Newydd ei chodi uwchben Aberdaron. Ond yn fuan dychwelyd i eglwys Sant Hywyn wnaeth y plwyfolion.

Cafodd y gwaith ar yr adeilad ei orffen yn 2013 a'r gobaith yw y bydd hyn yn adfer adeilad a fu mor ganolog yn hanes pererindota ar hyd y canrifoedd.

Yno mae Cerrig Anellog y ddwy garreg o'r 5/6edG sy'n tystio fod Cristnogaeth wedi cyrraedd Llŷn yn gynnar. Mae bedyddfaen yr eglwys yn dyddio o'r 15edG.

Mae creithiau ar un o'r pileri yn brawf bod milwyr Cromwell wedi hogi eu cleddyfau yn yr adeilad yn ystod y Rhyfel Cartref.

Bu'r bardd R S Thomas yma'n offeiriad o 1967 hyd 1978 ac mae arddangosfa o'i fywyd a'i waith yn yr eglwys.

## Eglwys Newydd Aberdaron (SH 17532725)



Cofnododd Hyde-Hall yn 1809-11 fod rhan o eglwys Sant Hywyn Aberdaron, fel amryw o eglwysi Llŷn, mewn cyflwr difrifol er eu bod yn cynnal ysgol mewn un rhan ohoni.

Gan fod y môr yn erydu'r fynwent ac yn peryglu'r adeilad penderfynon nhw godi eglwys newydd ar dir Bodernabwy ym mhen uchaf y pentref.

Adeilad cwbl wahanol oedd hwn ac roedd llawer yn feiriadol o'i bensaerniaeth. Cafodd ei agor yn 1841 ond ni fu'n boblogaidd a dychwelodd y plwyfolion yn fuan i eglwys Sant Hywyn.

Yma mae mynwent Aberdaron ac yn yr eglwys y caiff gwasanaethau angladdol eu cynnal.



## Llwybr y Pererinion (De)



Daeth Cadfan o Lydaw yn y 6edG a sefydlu eglwys yn Nhywyn, Meirionnydd. Gydag ef daeth nifer o ddilynwyr, fel Cynon, Padarn, Lleuddad, Gwyndaf, Tanwg a Maelrhys.

Efallai i Gadfan sylwi ar ynys ar y gorwel a'i gweld fel lle delfrydol i encilio iddi. Ynys Enlli oedd honno ac wedi pererindota tuag ati sefydlodd gymuned o fynachod sydd wedi parhau'n gyrchfan i bererinion hyd heddiw. Mi fyddai'r pererinion cynnar wedi dilyn arfordir bae Ceredigion.

Sefydlodd un o'i ddilynwyr, Tanwg gell a ddatblygodd i fod yn Llandanwg. Roedd yma gapel gorffwys cyn cario'r cyrrff dros y môr i Ynys Enlli.

Byddai'r pererinion hefyd yn ymweld â'r eglwys ar Ynyscynhaearn, a oedd yn ynys y pryd hynny, wedi'i sefydlu gan Cynhaearn, un o ddisgyblion Beuno. Yn Llanystumdwy roedd delw enwog o'r Forwyn Fair.

Byddai rhai am ymweld â Ffynnon Gybi, un o'r ffynhonnau meddyginiaethol enwocaf cyn aros am ysbaid yn Abererch.

Byddent wedi cadw o'r gors lle mae Pwllheli nawr a mynd trwy Deneio ar dir uwch cyn galw yn Eglwys Penrhos a chael croeso a seibiant ym Mhenyberth. Yna galwent yn Llanbedrog cyn mynd am Forfa Neigwl lle'r oedd Llangian ac yn arbennig Llanengan. Yma byddent yn coffáu Engan (Einion), brenin Llŷn a roddodd Ynys Enlli i Cadfan i sefydlu encilfa arni.

Y llwybr byrraf wedyn fyddai mynd dros Fynydd Rhiw a chael galw yn yr eglwys yno ac yn Ffynhonnau Aeliw a Saint cyn disgyn i Eglwys Llanfaelrhys ac ymlaen i Aberdaron.

Ond byddai dewis arall ym Morfa Neigwl, sef mynd heibio Eglwys Llandyggwning a Botwnnog, ymlaen trwy Fryncroes ac i Aberdaron. Yn amlach na pheidio byddai rhaid iddynt aros am dywydd teg i groesi'r Swnt ond roedd digon o atyniadau yn yr ardal i'w cadw'n ddiddig.

## Eglwys y Rhiw (SH 23422862)



**Cyfarwyddiadau:** *Dilynwch arwyddion 'Plas yn Rhiw' ar ffordd di-ddosbarth Mynytho – Aberdaron. Troi oddi arni ar waelod Gallt y Rhiw (SH S236281), eto i gyfeiriad Plas yn Rhiw ac ymlaen am 0.6 km. Bydd yr eglwys yn eich wynebu.*

Wedi'i adeiladu yn y 18edG ar seiliau cynharach. Mae ei chynllun yn anghyffredin – corff a changell byr ond dwy dransept hirach. Mae ansicrwydd ynglŷn â'i nawddsant ond mae Aeliw neu Aelrhiw wedi'u hawgrymu a bod yr enw wedi tarddu o 'Y Ddelw Fyw'. Roedd eglwys yma yn 1254 (Prisiad Norwich). Mae hi'n edrych dros Borth Neigwl o fewn waliau mynwent gron, ond wedi'i chau ers blynyddoedd a'i haddasu yn dŷ.

Mae **Ffynnon Aeliw** (SH 23392848) i'r de o'r eglwys ar dir Tyddyn Aeliw ac wedi'i adfer gan AHNE Llŷn. Mae grisiau neu seddau o gwmpas y ffynnon ac mae wedi'i gwarchod gan ffens a wal. Câl'r dŵr ei ddefnyddio i wella manwynau (scrofula) ac anhwylder ar groen o'r enw 'Man Aeliw'.

Mae ffynnon arall o gryn bwysigrwydd – **Ffynnon Saint** (SH 24202950) ar lethrau dwyreiniol Mynydd y Rhiw ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**Cyfarwyddiadau:** *Dilynwch lôn drol ym Morfa Neigwl (SH 24222863) oddi ar ffordd (Mynytho – Aberdaron) i gyfeiriad Mynydd Rhiw. Dilynwch y llwybr i'r chwith at wal y mynydd a thrwy giât i'r gorllewin o'r goedwig.*

Mae olion wal yn amgylchynu'r ffynnon a thri gris yn mynd i lawr ati. Tua 1940 roedd y wal ddwyreiniol yn 1m o uchder. Ar Ddydd Iau Dyrchafael byddai merched yr ardal yn dod at y ffynnon i olchi eu llygaid a thaflu pinnau i'r dŵr fel arwydd o ddiolchgarwch.



## Eglwys Llanfaelrhys (SH 21022685)



Mae'r eglwys blaen a syml hon yn sefyll uwchben Porth Ysgo, yr eglwys olaf cyn cyrraedd Aberdaron ar daith y pererinion o'r de a'r gorllewin.

Cafodd y rhan orllewinol ei chodi yn y Canol Oesoedd. Daw'r bedyddfaen o'r 15egG a'i hallor o'r 18edG. Un o'i nodweddion yw'r seddau caeedig ar yr ochr ddeheuol oedd yn perthyn i deulu Nanhoron.

Roedd Maelrhys yn gefnder i Hywyn, nawddsant Aberdaron, ac yn un o ddilynwyr Cadfan a ddaeth yma o Lydaw a sefydlu abaty ar Ynys Enlli.

Mae dwy chwedl wedi'u cysylltu â phlwyf Llanfaelrhys.

- 1) Daeth Rhys, gŵr o dde Cymru i Llyn mewn cyfnod o newyn i werthu ŷd. Cafodd bris da amdano ond pan sylwodd nad oedd gan y trigolion addoldy penderfynodd wario'r arian a gafodd a chodi eglwys iddynt.
- 2) Lladrataodd dau lanc arian o eglwys Llanfaelrhys ac wrth groesi i blwyf Rhiw trodd y ddau yn golofnau cerrig. Yno y buont wedyn am ganrifoedd, yn ddau faen hir, un ar ei draed a'r llall ar ei orwedd.

## Eglwys Bryncroes (SH 22623148)



Mae'r enw Bryncroes yn awgrymu cysylltiadau Cristnogol er nad yw arwyddocâd 'croes' yn yr enw wedi'i ddatrys. Heb fod ymhell mae Tŷ Fair, Mynachdy a Ffynnon Fair. Efallai fod

y fan hon ar un o'r ddau Lwybr y Pererinion. Mae awgrym bod y pererinion yn treulio'r gaeaf ym Modgaeaf yn y gobaith o gael tywydd gwell i groesi i Enlli yn y gwanwyn.

Yn ôl Prisiant Norwich roedd yma gapel yn perthyn i Enlli.

Mae tystiolaeth fod rhan o'r adeiladwaith yn dyddio o'r 16egG. Derbyniodd nawdd gan deuluoedd Trygarn, Sarn Mellteyrn a Chefnamwlch, Tudweiliog a buodd y teuluoedd yn amlwg pan gafodd ei hadfer yn 1906.

Heb fod ymhell mae Ffynnon Fair (SH 22663140). Mae wedi'i moderneiddio ac nid oes dim arbenigrwydd yr ydym yn ymwybodol ohono. Fodd bynnag mae aneddau gydag enwau awgrymog sef Tŷ Fair a Mynachdy yn yr ardal.

## Eglwys Botwnnog (SH 26263154)



**Cyfarwyddiadau: Dilynwch ffordd B4413 (Llanbedrog – Aberdaron). Dilynwch y ffordd i'r gogledd yn y pentref ac at Ysgol Botwnnog. Mae'r eglwys gerllaw.**

Dyma un o nifer o eglwysi Llŷn sydd wedi'i chysegru i Sant Beuno.

Cafodd llun o Ysgol Botwnnog a'r eglwys ei dynnu gan Moses Griffith (arlunydd Thomas Pennant) yn 1774 ac ynddo mae chlochdy tra gwahanol i'r un presennol.

Mae'r adeilad presennol yn Fictorianaid wedi'i godi yn 1835 ar gynllun William Owen a'i addasu ymhellach yn 1885. Fel mewn amryw o eglwysi eraill doedd dim pulpud hyd yn oed erbyn dechrau'r 19egG.

Yr ysgol yn y llun yw hen Ysgol Botwnnog wedi'i sefydlu yn 1616 yn dilyn marwolaeth yr Esgob Henry Rowlands, Mellteyrn. Tŷ Gwyn yw'r adeilad bellach ac mae plac arno i goffâu'r achlysur. Mae bedd yr Esgob Rowlands yn y fynwent.

Cafodd rhan hynaf yr ysgol bresennol ei adeiladu yn 1848 – 'Hen Ysgol Hogia Llŷn'.

Yn y fynwent hefyd mae bedd Owain Llŷn.



## Eglwys Llandydwning (SH 26613004)



**Cyfarwyddiadau: Dilynwch B4413 (Llanbedrog – Aberdaron) ac i'r de o Fotwnnog, troi i gyfeiriad Llangian. Mae'r eglwys ymhen 1km.**

Eglwys syml a'i thŵr pot pupur yn anghyffredin yn Llŷn er yn debyg i eglwys Botwnnog.

Gwynin yw ei nawddasant, un nad oes fawr o wybodaeth amdano. Mae sôn iddo ddianc o Fangor-is-y-coed i Ynys Enlli yn dilyn Brwydr Caer yn 616 A.D.

Mae cyfeiriad ati yn 1530au fel 'Llan Dwgwninio'. Cafodd ei chynllunio gan John Welch ac nid oedd y tŵr dieithr yn gymeradwy ar y pryd. Derbyniodd eglwys arall wedi'i chynllunio yn y dull Romanèsg, sef Eglwys Newydd Aberdaron feirniadaeth lymach.

Mae wedi'i chau ers blynnyddoedd a chaiff ei gwarchod gan Gyfeillion Eglwys Llandydwning.

## Y Ffynhonnau Sanctaidd



Mae nifer helaeth o'r ffynhonnau yn Llŷn wedi'u lleoli ar Lwybrau Pererinion Enlli sy'n arwain i ben daw Llŷn. Roedd ganddynt ffydd yn eu gallu meddyginiaethol a hawdd dychmygu'r pereinion yn llusgo'n flinderus yn eu gwendid tuag atynt. Gwyddom am rai o'r ffynhonnau ond aeth cyfrinachau'r lleill ar goll ers canrifoedd.

Roedd y ffynhonnau'n bodoli cyn dyfod Cristnogaeth a chyn sefydlu eglwysi hynafol Llŷn. Maent yn dangos ble roedd safleoedd sanctaidd ein cyndadau paganaidd a gweithgareddau Canoloesol.

Roedd cred ein cyndadau yng ngalluoedd dŵr y ffynhonnau wedi ei wau yn dynn wrth eu credoau crefyddol. Ond bellach, o ganlyniad i ddylanwad Piwritaniaeth, ofergoedd yw hyn. Mewn llythyr, anfonodd Ieuan Llŷn at Dafydd Ddu Eryri yn 1796 gan sôn am Ffynnon Fair, Uwchmynydd a bod ôl carn ceffyl yn y graig.

Roedd defod a seremoni wrth yfed neu ymolchi yn y dŵr yn hanfodol fel yn Ffynnon Gybi a Ffynnon Beuno. Mae meddygon yn deall pam bod Meddyges Bryn Canaid yn Uwchmynydd yn defnyddio dŵr Ffynnon Saint.

Roedd cryn bwysigrwydd i ffynhonnau mewn diwyllianau a gwareiddiad byd eang. Y gred oedd bod duwiau yn byw mewn ffynhonnau a llynnoedd a chaent hwy eu haddoli yn ogystal ag afonydd. O ganlyniad roeddent yn gyrchfan offrymu, yn fannau cynnal seremoniau a'r dŵr yn aml yn feddyginiaethol. 'Duwies Fawr' a 'Duwies Fach' oedd afonydd Dwyfor a Dwyfach.

Mae amrywiaeth ddifyr iawn ymhlith ffynhonnau Llŷn – yn eu henwau, eu natur a'u nodweddion.

## Ffynhonnau Sanctaidd Lleol



Mae cyfeiriadau yn enwau'r ffynhonnau at eu natur a'u cysylltiad â'r pererinion.

### Ffynnon Saint, Rhiw (SH 242029450)

**Cyfarwyddiadau: Dilynwch lôn drol ym Morfa Neigwl (SH 24222863) oddi ar ffordd (Mynytho – Aberdaron) i gyfeiriad Mynydd Rhiw. Dilynwch y llwybr i'r chwith at wal y mynydd a thrwy giât i'r gorllewin o'r goedwig.**

Mae hon ar lethrau dwyreiniol Mynydd Rhiw ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae olion wal yn amgylchynu'r ffynnon a thri gris yn mynd i lawr ati. Tua 1940 roedd y wal ddwyreiniol yn 1m o uchder. Ar Ddydd



lau Dyrchafael byddai merched yr ardal yn dod at y ffynnon i olchi eu llygaid a thaflu pinnau i'r dŵr fel arwydd o ddiolchgarwch.

#### **Ffynnon Lleuddad, Llangwnnadr (SH 29163273)**

**Cyfarwyddiadau: Dilynwch lôn fferm Carrog, ger Mynydd Cefnamwlch oddi ar B4417 (Tudweiliog – Llangwnnadr). Mae ar dir y fferm.**

Mae hon wedi'i henwi ar ôl Lleuddad, ail Abad Ynys Enlli ac dywedwyd ei bod yn gallu gwella amrywiaeth o glefydau ar ddyn ac anifail. Nepell mae tŷ o'r enw Bryn Lleuddad, caeau gyferbyn â chapel Ynys Enlli yn Gerddi Lleuddad ac mae Ogorf Lleuddad yng nghyffiniau Aberdaron.

#### **Ffynnon Saint, Aberdaron (SH 16532671)**

**Cyfarwyddiadau: Dilynwch y ffordd o Aberdaron i Uwchmynydd. Mae'r ffynnon i'w gweld ar y dde i'r gyffordd gyntaf.**

Dyma ffynnon enwog iawn yn ei dydd fel mae ei henw'n awgrymu. Mae'n ffynnon feddyginiaethol a byddai Meddyges Bryn Canaid yn defnyddio ei dŵr i wella amrywiaeth o anhwylderau.

#### **Ffynnon Aeliw, Rhiw (SH 23392848)**

**Cyfarwyddiadau: Dilynwch arwyddion 'Plas yn Rhiw' ar ffordd Mynytho – Aberdaron. Trowch oddi arni ar waelod Gallt Rhiw (SH 24222863), eto i gyfeiriad Plas yn Rhiw ac ymlaen am 0.6 km.**

Mae hon i'r de o Eglwys Rhiw ar dir Tyddyn Aeliw ac wedi'i adfer gan AHNE Llŷn. Mae grisiau neu seddi o'i chwmpas ac mae wedi'i gwarchod gan ffens a wal. Câi'r dŵr ei ddefnyddio i wella manwynau (scrofula) ac anhwylder ar groen o'r enw 'Man Aeliw'.

#### **Ffynnon Cefn Lleithfan, Rhiw (SH 23633010)**

**Cyfarwyddiadau: Dilynwch y ffordd o Fryncroes/ Botwnnog i Rhiw ar hyd ochr Mynydd Rhiw. Mae Tegfryn yr ochr isaf i'r ffordd a'r ffynnon bron gyferbyn ag ef.**

Mae hon bellach wedi'i moderneiddio a'r muriau oedd yn ei chwmpasu wedi diflannu. Roedd yn bwysig yn ei dydd, a sôn bod y dŵr yn gallu gwella defaid ar groen. Ond roedd rhaid dilyn defod, sef cerdded tuag ati heb edrych yn ôl nac yngan gair wrth neb. Roedd angen golchi'r croen efo cadach â bloneg arno a'i guddio dan garreg. Yna ymadael â'r ffynnon yn yr un modd. Pan fyddai'r cadach yn pydru byddai'r defaid yn diflannu.

#### **Olion Cynnar Cristnogaeth**



*Carreg fedd gyda gwisg pererin arni (Ynys Enlli)*

Ymhlith tystiolaeth fod Cristnogaeth wedi cyrraedd Llŷn yn gynnar mae amryw o gerrig coffa. Y rhai mwyaf arwyddocaol yw'r ddwy welir yn eglwys Aberdaron, sef Cerrig Anellog. Yng nghapel Ynys Enlli mae dwy garreg o'r cyfnod hwn, un yn garreg fedd mae'n debyg a'r llall yn garreg a chroes arni. Mae carreg a chroes arni yn Eglwys Llangwnnadr hefyd.

Gyda'r Rhufeiniad y daeth Cristnogaeth i Brydain erbyn diwedd y 5edG. Mae'n bosibl bod crefydd wedi ymledu i Llŷn trwy genhadaeth y 'seintiau'. Nhw oedd y pererinion cenhadol a fyddai'n crwydro gan sefydlu llannau yma ac acw. Mae'r ffynhonnau sanctaidd a'r meini Cristnogol cynnar yn dystiolaeth o hynny.





Dydi pob carreg ddim yn coffáu Cristnogion ac roedd yn arferiad hefyd i droi safle yn un Cristnogol trwy roi arysgrif a chroes ar garreg o gyfnod cynharach. Mae Nash-Williams yn cyfeirio at y ddau ddosbarth hyn o'r cerrig.

Cerrig beddau yw'r Cerrig ag arysgrif arnynt yn coffáu offeiriad neu wŷr o uchel dras gan amlaf. Yr iaith Lladin neu Ogam a gâi eu defnyddio a llwyddant i daflu cryn oleuni ar fywyd y cenedlaethau Cristnogol Cynnar.

Yn Llŷn ceir nifer o gerrig o gyfnod cynnar Cristnogaeth.

- Cerrig Alitorius a Melitus, Eglwys Llanaelhaearn (SH 38704480)
- Carreg Plas Bach, Ynys Enlli (SH 12072214)
- Cerrig Anelog, Eglwys Aberdaron, (SH 17332637)
- Cerrig Penprys, Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog, (SH 329314)
- Carreg Melus, Eglwys Llangian (SH 29562894)
- Carreg Llannor, Eglwys Llannor (SH 35393727)

Mae enghreifftiau o gerrig â chroesau arnynt yn brin yn Llŷn. Mae'r rhain o'r 7fed i'r 9fedG pan oedd Cristnogaeth wedi ymledu led-led Cymru.

- Carreg Groes, Eglwys Llanaelhaearn (SH 38704480)
- Carreg Groes, Pistyll (SH 31974182)
- Carreg Hendy, Ynys Enlli (SH12072214)
- Carreg Croes Goch, Llangwnnadr (SH 20883322)

## Cerrig Anelog (SH 17332637)



Cyfarwyddiadau: Yn Eglwys Aberdaron yng nghanol y pentref

Cawsant eu darganfod ar lethrau Mynydd Anelog. Mae'n debyg mai ar dir Gors, Anelog (SH 156274) mae Capel Anelog wedi'i leoli, safle clàs Aberdaron. Yng Nghefnamwlch, Tudweiliog y cawsant eu gwarchod cyn eu symund i eglwys Aberdaron.

Mae'n debyg bod yr arysgrif arnynt yn dyddio yn ôl yn ddiweddar yn y 5edG neu'n gynnar yn y 6edG.

Mae'r arysgrif ar un, sef VERACIUS/PBR/HIC/IACIT yn coffáu offeiriad o'r enw Veracius, ond gall fod yn sant Gwyddelig â'i enw'n gyfystyr â'r enw Berach.

Ar y llall mae'r arysgrifen: SENACUS/PBR/HIC/IACIT/CVMMVLITIV/FRATRVM sy'n nodi bod Senacus, yr offeiriad yn gorwedd yno 'gyda llu o frodyr'. Mae hyn yn tystio bod cymuned niferus yng Nghapel Anelog a bod pererinion yn brysur yn yr ardal. Roedd tair pererindod i Enlli yn gyfystyr ag un i Rufain.

Awgryma un archeolegydd fod pobl wedi camddarllen a chamddechongli'r ysgrifen Lladin aneglur. Hyn meddai sy'n gyfrifol am y gred bod ugain mil o saint wedi'u claddu yn Enlli.

Caiff Senacus yn Gymraeg ei ddechongli fel Hunog ac yn ddi-ddorol mae fferm o'r enw Bryn Hunog (SH 20103090) yn Rhoshirwaun.

## Cerrig Ynys Enlli (SH 12072214)



Cyfarwyddiadau: Dilynwch y lôn tua'r gogledd ar Ynys Enlli ac ewch i'r capel sydd ar y dde.



## Carreg Hendy

Dywed Nash-Williams ei bod o gyfnod 7fed i'r 9fedG. Arni mae croes linol â barau croes byrion arni a allai fod yn gaead bedd. Cafodd hon ei symud o fynedfa ysgubor Hendy (SH 12002220) i dŵr yr abaty (SH 12012217) ac yna i'w harddangos yn y capel.

## Carreg Plas Bach

Mae'n ddyddio o'r 10fed i'r 11fedG. Mae'r arysgrifen ganlynol arni yn darllen ar i lawr ond mae'r ystyr yn aneglur - ]ESILLI(?)MAR:QUEN.

Yn ôl Dyddiadur Enlli roedd y garreg hon ym Mhlas Bach (SH 11922174) yn 1882.

## Carreg Croes Goch, Llangwnnagl (SH 20883323)



Ar wal ddeheuol o fewn Eglwys Llangwnnagl mae'r groes hon i'w gweld ac mae wedi'i sgythru i garreg. Mae wedi'i dyddio o'r 6edG. Daeth i'r golwg wrth wneud gwaith ar yr adeilad yn 1940. Yn wreiddiol roedd wedi'i phaentio'n goch ac mae arlliw o'r lliw i'w weld arni o hyd.

Gall hon fod yn garreg fedd i Gwynhoedl, nawddsant yr eglwys. Ar un o bileri'r eglwys yn y rhan ogleddol cawn wybod bod Gwynhoedl wedi'i gladdu yno. Cafodd carreg i'w goffáu ei darganfod rhwng y ddau faen hir yn Nhir Gwyn Llannor ond maent bellach yn Oriol Plas Glyn y Weddw.

## Capel Mair, Uwchmynydd (SH 13922534)



*Olion Capel Mair ar y dde*

**Cyfarwyddiadau:** *Dilynwch y ffordd o Aberdaron trwy Uwchmynydd ac i dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – 'Mynydd Mawr'.*

Dim ond ffurf ei olion ar dywydd sych sydd i'w weld bellach. Mae wedi'i leoli yn agos i ben y grisiau sy'n arwain i lawr at Ffynnon Fair yn Uwchmynydd.

Dyma gapel gorffwys y byddai'r pererinion yn ei ddefnyddio wrth aros eu tro i groesi i Ynys Enlli. Byddent yn croesi o Ogof y Gath, ger Ffynnon Fair ar draws y Swnt i Fae'r Hendy ar Enlli. Câl ei ddefnyddio hefyd fel capel i gadw'r cyrff ynddo cyn croesi ar dywydd teg i'r ynys i'w claddu.

Mae llun o'i adfeilion yn 1777 gan Moses Griffith, yr arlunydd fu efo Thomas Pennant ar ei deithiau o gwmpas Cymru.



### Dilynwch y Stori...

Darganfyddwch fwy am fannau sanctaidd drwy ymweld âg Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron.